# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood; a M. Evans (Aelod Lleyg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey a L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau).

499 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

500 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi, 2024 fel cofnod cywir.

501 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

502 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y TÎM DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2024 fel y cynhwyswyd yn yr agenda.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Protheroe a oedd yr arian a roddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at ostyngiad yn yr ôl-groniad o asesiadau. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol, Canlyniadau Gwasanaeth a Diogelu fod hynny'n gywir gan fod arian gan Lywodraeth Cymru wedi galluogi’r gwasanaeth i ganolbwyntio ar yr ôl-groniad. Gwnaed penderfyniad gwleidyddol i beidio ag adolygu diben y diogelu a oedd oherwydd newid mewn arweinyddiaeth wleidyddol a arweiniodd at fwy o bwyslais ar agweddau eraill ar Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth hefyd yn edrych ar feysydd effeithlonrwydd a oedd yn cael eu datblygu ac a fyddai'n gwella capasiti.

O ran arian gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, eglurodd y Rheolwr Gweithredol fod Llywodraeth Cymru yn rhoi £150k yn flynyddol ynghyd â £47k ychwanegol ar gyfer eiriolaeth a £111k i gefnogi'r ôl-groniad. Ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol fod arian ar gyfer y tri pharti, sef Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Dinas Caerdydd a'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn cael ei ddyrannu fel canran gyda rhai ad-daliadau penodol yn cael eu gwneud ar gyfer pob parti.

Amlinellodd Mr. G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg) rywfaint o bryder o ran arian gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gymryd i ffwrdd neu ei leihau a dywedodd fod angen i'r Gyfarwyddiaeth/Cyngor fonitro'r sefyllfa yn agos gan y byddai'n cael effaith sylweddol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad ar y sail bod y Gyfarwyddiaeth yn monitro'r straen ariannol y gellir ei roi ar yr Awdurdod pe byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei leihau.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

503 ADRODDIAD HUNANASESU BLYNYDDOL DRAFFT TERFYNOL BRO MORGANNWG (CYF) –

Roedd y Cabinet, ar 10 Hydref 2024, wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor i'w ystyried a'i gymeradwyo yn unol â rôl statudol y Pwyllgor, dan Ran 6 (adran 114) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ar ôl ystyried byddai’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyfeirio unrhyw argymhellion yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried yn derfynol ar 7 Tachwedd 2024 cyn i’r adroddiad, ynghyd ag unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymatebion y Cabinet, gael eu cyflwyno i'r Cyngor ar 2 Rhagfyr 2024.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod y Cabinet wedi cymeradwyo'r 13 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ar gyfer pump o'r argymhellion, fodd bynnag, ystyriwyd y byddai’n well i’r rheiny gael eu cynnwys yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd E. Goodjohn fod yr adroddiad yn welliant i fersiwn y llynedd a’i fod yn falch bod gwersi wedi'u dysgu ond bod rhai newidiadau yr hoffai eu gweld. Yn gyntaf, nid oedd gwybodaeth o ran arolygon ar y cyfryngau cymdeithasol bob amser yn ystadegol berthnasol a gofynnodd a oedd angen yr holl arolygon. Gwnaeth y Cynghorydd Goodjohn sylw ar gynnwys dau dabl mewn perthynas â chyllideb y Cyngor a sut y gwariodd arian cyhoeddus a dywedodd eu bod yn rhywbeth y dylid rhoi cyhoeddusrwydd iddynt. Gofynnodd hefyd a oedd angen yr hyperddolenni i’r tablau ar y gyllideb hefyd. Yn olaf, cyfeiriodd y Cynghorydd Goodjohn at y sylwadau a wnaed gan Gyngor Cymuned Sili a oedd yn rhoi syniad da

o sut roedd y cyhoedd yn gweld y ddogfen.  Felly, nododd y byddai fersiwn iaith blaen fyrrach o'r adroddiad a oedd yn haws ei darllen yn well i'r cyhoedd.

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) BOD y Cabinet yn ystyried sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae’r sylwadau yn ymwneud â:

- Mewn perthynas ag ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol a'r defnydd o'r polau cyfryngau cymdeithasol, ystyried eu perthnasedd.
- Roedd y defnydd o dablau cyllideb i egluro sut mae'r Cyngor yn gwario ei arian yn ddefnyddiol iawn a dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd iddynt, ond roedd angen hypergysylltiadau ar wahân i'r tablau hefyd;
- Cynhyrchu fersiwn gryno mewn iaith glir o'r ddogfen ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

504 DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) –

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 (Ebrill 2024–Mawrth 2025).  Roedd yr adroddiad hefyd yn adlewyrchu ystyriaeth y Tîm Arweinyddiaeth Strategol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ddiwygiedig a’r Templedi Risgiau wedi’u cwblhau gan gynnwys yr ymateb i benderfyniad y Cabinet ar ôl iddo ystyried sylwadau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi’u cyfeirio ar y  Gofrestr Risgiau Corfforaethol a’r Polisi Rheoli Risg diwygiedig.

Roedd gan y Gofrestr Risgiau Corfforaethol gyfanswm o 12 risg a nodwyd gyda chwe risg yn sgorio'n uchel, tri risg yn sgorio’n ganolig / uchel a thri risg yn sgorio’n ganolig ar y Gofrestr.

Gan fod y Gofrestr Risgiau’n cael ei hadolygu dros fisoedd yr haf, hwn oedd y chwarter cyntaf ar gyfer adrodd ar y Gofrestr Risgiau newydd ac o'r herwydd ni fu unrhyw newidiadau i gyfeiriad teithio.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at Gyflawni Prosiectau Adfywio Mawr a gofynnodd a oedd hynny'n adlewyrchu'r cyhoeddiad cyllidebol a oedd ar ddod gan Lywodraeth y DU.  Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at y sgôr effaith a briodolwyd i'r risg Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur a gofynnodd beth oedd yn atal y risg honno rhag cael statws catastroffig.  Holodd hefyd farn y Tîm Arweinyddiaeth Strategol.  Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, o ran

Prosiectau Adfywio Mawr, fod y statws yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 2. Byddai'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn monitro effaith prosiectau mawr yn dilyn y cyhoeddiad cyllidebol gan Lywodraeth y DU. O ran y risg Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur, dywedodd y Cyfarwyddwr, o ystyried rhai o'r sylwadau a wnaed dros y misoedd blaenorol, y byddai risgiau'n cael eu hailddiffinio er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r risg i'r Cyngor. Rhagwelwyd y byddai'r risg yn cynyddu dros amser oherwydd y tebygolrwydd o fwrw targedau 2030. Ystyriwyd bod y rheolaethau sydd ar waith ar hyn o bryd yn gyfyngedig o ran gallu cwblhau'r camau angenrheidiol ac oherwydd pwysau ar adnoddau.

Dywedodd y Cynghorydd J. Protheroe fod Llywodraeth Cymru wedi cynghori pob Awdurdod Lleol i roi diwygio caffael ar eu cofrestrau risgiau. Y rheswm dros hyn oedd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth, gweithdrefnau a phrosesau. Rhoddodd y Cyfarwyddwr rywfaint o sicrwydd sef bod cyfeiriad o fewn y risg Adnoddau Ariannol at fethu â bodloni gofynion y Ddeddf Caffael. Er nad oedd caffael yn risg, roedd ffocws ar y risg honno gan gynnwys fframwaith monitro.

Cyfeiriodd Mr. N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg) hefyd at gaffael a cheisiodd sicrwydd pellach o ystyried y ffaith bod adroddiad gan Archwilio Mewnol ynghylch cofrestr contractau yn ddiweddarach yn yr agenda. Yn ogystal, cyfeiriodd Mr Ireland at Atodiad B a gofynnodd am rywfaint o eglurder ynghylch y categorïau risg. Mewn ymateb i gategorïau risg, dywedodd y Cyfarwyddwr fod pedwar categori sef Gwleidyddol a Deddfwriaethol, Adnoddau, Darparu Gwasanaethau a Lles ac Enw Da. Byddai pob risg ar y Gofrestr yn cael ei hystyried yn fanwl dan bob un o'r pedwar categori er mwyn nodi'r tebygolrwydd y byddai'r risg yn digwydd ac effaith y risg, a fyddai'n rhoi golwg gyfannol. Roedd cysylltiad rhwng pob un o'r pedwar categori, ond roedd yn gywir i ddweud bod Adnoddau wedi cael effaith arbennig o berthnasol ar bob risg. Er enghraifft, byddai adnoddau sydd ar gael yn cael effaith ar ddarparu gwasanaethau ac yn debygol o gael effaith les dinasyddion, ac felly gallent gael effaith ar enw da'r Cyngor. O ran y gofrestr contractau, cydnabuwyd bod angen gwneud mwy o waith. Roedd mecanwaith monitro wedi'i sefydlu gyda materion yn cael eu hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Roedd y gwaith y cyfeiriwyd ato yn ddiweddarach ym mhapurau'r agenda yn ymwneud â'r fframwaith contractau cyffredinol a oedd yn ddarn o waith yr oedd Ardal wedi bod yn ei wneud ar ran y Cyngor. Mewn ymateb i ddiwygio caffael, roedd oedi bach wedi bod cyn datblygu cynllun gweithredu i gynorthwyo'r Cyngor i ddeall ei ddyletswyddau a'i ofynion. Byddai cynnydd y cynllun gweithredu yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Gofynnodd Mr. M. Evans (Aelod Lleyg) a oedd unrhyw risgiau ar y Gofrestr a oedd yn achosi pryder ar unwaith ac a oedd y tu allan i'r 'parodrwydd i dderbyn risg'. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai angen mwy o amser arno i gyflwyno ymateb llawn.

Gofynnodd Mr. Evans am fwy o eglurder ynghylch effeithiolrwydd sgorau rheoli. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod sgorau yn amrywio o un sef yr isaf a oedd yn dangos bod y rheolaethau a oedd ar waith yn cael effaith gyfyngedig iawn. O ran cynhyrchu'r risg gynhenid, gydag enghreifftiau fel Tai, Digartrefedd, Newid Hinsawdd, roedd llawer o weithgarwch yn digwydd, ond efallai na fydd hynny'n lleihau'r risg gyffredinol a oedd yn ei hanfod yn uchel iawn. Mewn meysydd eraill fel y risg Ddigidol, roedd gan y Cyngor gamau lliniaru cryfach ar waith. O ran dod i farn

gyffredinol ar effeithiolrwydd rheolaethau, gwnaed hynny fel rhan o ddiffinio pob un o'r risgiau, gyda phob un yn cael ei hadolygu'n gyson wrth i fesurau lliniaru newydd ddod yn rheolaethau.

Cyfeiriodd Mr. G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg) at Risg 7 – Pontio o System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) a gofynnodd pa gynnydd a wnaed i brofi'r sgôr risg o wyth, o ystyried y ffaith bod oedi wedi bod i nifer o feysydd, a pha waith a oedd yn cael ei wneud yn rhanbarthol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod adroddiad ar gynnydd wedi'i roi i'r Cabinet, ac y byddai'r adroddiad hwnnw'n cael ei rannu gydag aelodau'r Pwyllgor.

Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch y risg Adnoddau Ariannol a dywedodd ei fod yn cefnogi gwahanu'r elfen gaffael ac felly dylid ailystyried hynny. Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd a ddylid codi'r sgôr risg o 12 i 16 o ystyried y ffaith bod Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn dangos diffyg ariannol. Felly, roedd arbedion cyllidebol sylweddol yn debygol. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y dylai'r sgôr risg ar gyfer SWGCC fod yn uwch hefyd. Mewn ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaed, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y sefyllfaoedd yn yr adroddiad yn ymwneud â diwedd Chwarter 2, ac y byddai adnewyddu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei ystyried yn ystod mis Tachwedd.

Ailadroddodd y Cynghorydd E. Goodjohn y sylwadau blaenorol a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch caffael, a dywedodd fod angen gweithredu argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu, ar ôl eu cwblhau, ar unwaith. Ychwanegodd y Cynghorydd Goodjohn fod y Cyngor yn wynebu heriau dramatig yn ymwneud â Phrosiect Sero (Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur) ac o ran Adnoddau Ariannol, felly roedd angen i'r Cabinet a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol edrych ar y ddau beth ar unwaith. Dywedodd y Cynghorydd Goodjohn fod risgiau dramatig i'r Cyngor, gan gynnwys difrod i enw da, os nad oedd yn bwrw ei dargedau fel lleihau allyriadau carbon.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sylwadau Tîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor a'r Cabinet mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

(2) Nodi sefyllfa Chwarter 2 o Risgiau Corfforaethol (Ebrill 2024 - Mawrth 2025), fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad Cryno o Risgiau (Atodiad A i'r adroddiad).

(3) Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cabinet. Y sylwadau yw:

- Y dylai caffael gael ei wahanu oddi wrth y Risg Adnoddau Ariannol a bod yn risg annibynnol ar y Gofrestr Risg Corfforaethol;
- Bod sgôr y Risg Adnoddau Ariannol yn cael ei ailystyried ac a oedd yn cyfiawnhau sgôr risg uwch;

- Bod y Cabinet a Thîm Arweinyddiaeth Strategol y Cyngor yn edrych ar Risg System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru a'r Risg Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur fel mater o frys.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am farn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

505 CYNNIG I DDIWYGIO POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW 2024/25 (CAC) –

Yr Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) oedd y dull a ddefnyddiwyd gan Awdurdodau Lleol i godi cost eu gwariant cyfalaf a ariannwyd yn wreiddiol gan ddyled ar eu cyfrifon refeniw dros amser. Cyn 2007/08, nodwyd y dull o gyfrifo’r IDR mewn deddfwriaeth, o 2007/08 ymlaen roedd Awdurdodau Lleol wedi bod yn rhydd i osod eu polisi eu hunain ar gyfrifo’r IDR.

Ar gyfer gwariant cyfalaf â chymorth, gweithredodd y Cyngor y Dull "Bywyd Asedau" wrth gyfrifo’r IDR. Pennwyd yr IDR drwy godi’r gwariant dros fywyd defnyddiol disgwyliedig bywydau asedau cyfartalog (40 mlynedd) Asedau'r Cyngor (nid y cyfrif refeniw tai) mewn rhandaliadau cyfartal, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol.

Yn dilyn rhywfaint o feincnodi diweddar ar draws Awdurdodau Lleol eraill Cymru, roedd y Cyngor wedi nodi nifer o Awdurdodau a ddefnyddiodd fywyd asedau o 50 mlynedd yn hytrach na 40 mlynedd a fyddai'n rhyddhau arbedion pellach i'r gyllideb refeniw tra'n parhau i gynnal darpariaeth ddarbodus.

Gan ystyried y canllawiau y mae'n rhaid i'r Cyngor lynu wrthynt, roedd y tîm wedi gwneud darn o waith yn edrych ar y bywydau asedau cyfartalog a ariannwyd o fenthyca â chymorth ar gyfer yr wyth mlynedd ariannol flaenorol lle'r oedd yr asedau hynny wedi'u hariannu drwy fenthyca â chymorth ac oherwydd cyfraniadau sylweddol tuag at Gynlluniau Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf a oedd fel arfer â bywyd asedau o 65 mlynedd. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, y bywyd asedau cyfartalog dros y cyfnod hwn oedd 50.70 mlynedd.

Felly, roedd y Cyngor yn dal i gynnig defnyddio'r Dull "Bywyd Asedau" wrth gyfrifo’r IDR, fodd bynnag, cynigiwyd diwygio'r bywyd asedau cyfartalog o 40 i 50 mlynedd. Byddai'r newid hwn yn arwain at arbediad refeniw o £615k.

Roedd yr IDR wedi'i gysylltu'n gynhenid â'r cysyniad o'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC) yn y Cod Materion Ariannol. Roedd y GAC yn cynrychioli cyfanswm holl wariant cyfalaf y Cyngor yn y gorffennol, llai cyfanswm yr arian cyfalaf a gymhwyswyd ac eithrio dyled. Dim ond math dros dro o gyllid oedd dyled gan fod rhaid ad-dalu benthyciadau. Felly, roedd y GAC yn cynrychioli angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf, a'r swm nad oedd wedi'i ariannu'n barhaol

eto. Yr IDR oedd y prif ddull o ariannu'r gwariant hwnnw yn barhaol. Os cânt eu cymeradwyo, manylir ar y rhagamcanion GAC diwygiedig isod.

| Blwyddyn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 10 | 20 | 30 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2033/34 | 2043/44 | 2053/54 |
| GAC | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyfredol | 235,061 | 269,484 | 298,573 | 322,579 | 352,207 | 457,146 | 691,165 | 856,175 |
| Diwygiedig | 235,676 | 270,731 | 300,469 | 325,142 | 355,454 | 464,245 | 707,262 | 882,793 |

Cymhwyso dull rhandaliad cyfartal dros y bywyd asedau cyfartalog (50 mlynedd) i GAC Benthyca â Chymorth y Cyngor oedd methodoleg ddewisol y Swyddog Adran 151 ar gyfer y Cyngor gan ei fod yn gwbl gyson â'r ddyletswydd statudol i wneud darpariaeth refeniw darbodus ar gyfer adbrynu dyled. Er y byddai hyn yn arwain at broffil GAC uwch i ddechrau na'r dull presennol, sicrhaodd fod y gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyca yn cael ei ad-dalu o fewn y bywyd asedau disgwyliedig yn hytrach nag ymestyn y tu hwnt iddo.

Trafododd y Pwyllgor gynnwys Tabl 3 yn yr adroddiad yn dangos y bywyd asedau cyfartalog fesul blwyddyn, gan nodi bod nifer o flynyddoedd gwahanol iawn a allai wyro'r cyfartaledd cyffredinol. Cytunwyd felly y byddai angen dadansoddiad pellach o'r bywydau asedau cyfartalog yn ogystal ag asesiad manylach o bolisïau a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol eraill.

PENDERFYNWYD – Gohirio'r adroddiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn caniatáu dadansoddiad o'r oes asedau cyfartalog a'r polisïau a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol eraill.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

506 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24 (PGAMR) –

Roedd Adroddiad Blynyddol 2023/24 wedi ystyried sylwadau gan Aelodau’r Pwyllgor a dangosodd sut yr oedd y Pwyllgor wedi cyflawni ei Gylch Gorchwyl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor fel y nodir gan Fesur Llywodraeth Leol 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd wedi cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn dangosodd yr Aelodau eu bod yn awyddus i herio'r adroddiadau a gyflwynwyd iddynt, cadernid gwybodaeth a phroses a gwnaethon nhw awgrymiadau i wella adroddiadau llywodraethu wrth symud ymlaen. Roeddent hefyd yn awyddus i sicrhau bod swyddogion yn dysgu gwersi o faterion a nodwyd ac yn dal uwch reolwyr i gyfrif am wneud y gwelliannau gofynnol. Lle bo'n briodol, gwahoddwyd Cyfarwyddwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor i roi sicrwydd pellach.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol 2023/24, yn amodol ar ddiwygiad i baragraff 4.4.1 i egluro nad oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried pob adroddiad archwilio ond dim ond y rhai â sicrwydd cyfyngedig.

Yna

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24 yn amodol ar ddiwygio paragraff 4.4.1 i egluro nad oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried yr holl adroddiadau archwilio ond dim ond y rheini â sicrwydd cyfyngedig.

(2) Bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24 yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

507 DIWEDDARIAD AR BROSIECT CYFALAF YSGOL STANWELL (PGAMR) –

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Mewnol yn ymwneud ag Ysgol Stanwell i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2023 fel rhan o Adolygiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2022/23.

Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i Archwilio Mewnol ymgymryd â gwaith pellach, manylach yn ymwneud â Phrosiect Cyfalaf Ysgol Stanwell.

Gwnaed gwaith pellach gan Archwilio Mewnol gyda chyngor gan Dîm Eiddo'r Cyngor mewn perthynas â'r broses dendro a chontractau yn yr ysgol.

Nid oedd y Pennaeth yn yr ysgol ac nid oedd ar gael yn ystod cyfnod yr adolygiad archwilio; wedi hynny gadawodd gyflogaeth yr ysgol ym mis Awst 2023. Yn anffodus, bu farw Rheolwr y Safle ym mis Mehefin 2023.

Oherwydd natur gyfrinachol canfyddiadau'r gwaith Archwilio Mewnol dilynol, cyfeiriwyd y mater yn ôl at Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth Dros Dro yn yr ysgol i ddelio ag ef dan bolisïau a gweithdrefnau priodol y Cyngor/ysgol, a'i gyfeirio ymlaen at sefydliadau allanol perthnasol i'w ystyried ymhellach; roedd hyn yn barhaus.

Cynhaliwyd archwiliad rheoleidd-dra pellach yn yr Ysgol ym mis Hydref 2023 a arweiniodd at Farn Archwilio Sicrwydd Rhesymol.

Nid oedd materion yn ymwneud â'r prosiect cyfalaf a nodwyd yn flaenorol wedi'u canlyn ac ni ellid eu canlyn gan nad oedd unrhyw brosiectau cyfalaf pellach wedi digwydd.

Rhoddodd y Pennaeth Dros Dro sicrwydd, pe bai prosiectau o'r fath yn cael eu hystyried yn y dyfodol, y byddai'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl weithdrefnau ariannol a chaffael. Dywedodd yr adroddiad fod y gorwariant wedi lleihau'n sylweddol erbyn diwedd Ebrill 2024.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y camau a gymerwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol yn dilyn y gwaith pellach a wnaed.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

508 BARN GYFYNGEDIG DILYNOL ARCHWILIO MEWNOL (PGAMR) –

Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol sefydlu cynlluniau ar sail risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol, yn gyson â nodau'r sefydliad. Dylai'r cynllun archwilio ar sail risg gwmpasu amgylchedd rheoli cyffredinol y Cyngor gan gynnwys risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol cyn belled ag y bo'n ymarferol.

Ar ran y Pennaeth Archwilio Mewnol, cyhoeddir barn sicrwydd archwilio ar ddiwedd pob tasg archwilio yn y Cynllun, yn seiliedig ar y cryfderau a'r gwendidau a nodwyd drwy gydol y gwaith archwilio.

Y barnau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol yw'r rhai a argymhellir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ac fe'u defnyddir ym mhob rhan o Archwilio Mewnol yn y sector cyhoeddus yn y DU; Sylweddol, Rhesymol, Cyfyngedig, Dim Sicrwydd.

Progress v Internal Audit Plan 2024/25 was reported into Governance and Audit Adroddwyd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 23 Medi 2024. Nododd yr Aelodau fod archwiliad dilynol o archwiliad Sicrwydd Cyfyngedig blaenorol wedi arwain at farn Sicrwydd Cyfyngedig arall.

Felly argymhellodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y dylid gofyn i'r Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth perthnasol ar gyfer y Gwerthuso a Dyfarnu Tendrau - Gwasanaethau Adeiladau (Gwasanaethau Tîm Cynlluniedig a Phrosiectau) ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno adroddiad a diweddariad ar y camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion yn dilyn yr adolygiad o Archwilio Mewnol.

Roedd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a geir yn Atodiad B yr adroddiad. Roedd yn siomedig nad oedd yr holl faterion a nodwyd yn adroddiad archwilio 2021 wedi cael sylw a bod rhai wedi'u nodi eto yn adroddiad archwilio 2024.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Goodjohn at gam gweithredu blaenoriaeth 2.3 – Nid yw swyddogion yn cwblhau unrhyw ddatganiad i ddatgan bod ganddynt neu nad oes ganddynt fuddiant personol yn unrhyw un o'r contractwyr sy'n ymgeisio, ac eglurwyd bod disgwyl i staff wneud datganiadau o'r fath yn unol â'r Cod Ymddygiad Gweithwyr.

Holodd y Cynghorydd J. Protheroe gynnydd a chynlluniau yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau fod Uwch Swyddogion wedi cael hyfforddiant caffael gan Ardal, ond byddai angen hyfforddiant pellach i fwy o staff. Roedd y Ddeddf newydd wedi arwain at drafodaethau ynghylch adnoddau a chapasiti'r Cyngor a gofynion y dyfodol, a fyddai'n rhan o'r rôl ar gyfer yr adnodd caffael newydd. Byddai'n faes ar gyfer adolygu a monitro cyson.

Dywedodd y Cynghorydd M. Hooper ei fod wedi nodi bod adnoddau yn thema reolaidd yn yr adroddiad, a gofynnodd a oedd digon o adnoddau o fewn Tai a Gwasanaethau Adeiladau. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau y byddai mwyafrif y gwaith o natur gyfalaf ym maes Safonau Ansawdd Tai Cymru a olygai fod ffioedd cysylltiedig, gyda thâl yn ôl drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd hefyd yn golygu y byddai gwaith yn cael ei dargedu at weithgareddau tenantiaid. Roedd lefel o incwm yn deillio o’r gwaith prosiect, felly byddai unrhyw gynnydd yn yr adnodd swyddfa gefn yn cael ei godi ar gleientiaid.

O ran monitro argymhellion o 2021, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai'r gwasanaeth bob amser yn ceisio tystiolaeth bod y rheolwyr gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r holl argymhellion a gyhoeddwyd yn flaenorol, er y gallai'r geiriad fod wedi newid ychydig o fewn archwiliadau dilynol. Byddai archwiliad dilynol yn cael ei gynnal o fewn 6 i 12 mis, a byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael gwybod am y canlyniad.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD – Nodi’r camau adferol a gymerwyd i fynd i’r afael ag argymhellion Archwilio Mewnol 2021 a 2024 a bod Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu yn adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y camau gweithredu sy’n weddill yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 24 Mawrth, 2025.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

509 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL 2024/25 (PGAMR) –

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl. Derbyniodd adroddiadau a

chyflwyniadau drwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynwyd Blaenraglen Waith (BW) ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y BW ar gyfer 2024/25 wedi’i chynhyrchu ac roedd yn Atodiad A yr adroddiad.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r BW wedi'i diweddaru neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Nodwyd bod cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 18 Tachwedd 2024 am 7pm, er mwyn ystyried Datganiad Cyfrifon y Cyngor. Byddai'r adroddiad gohiriedig ar y Cynnig i Ddiwygio Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2024/25 hefyd.

Cytunwyd hefyd i'r Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Gwerthuso a Dyfarnu Tendrau - Gwasanaethau Adeiladau (Gwasanaethau Tîm Cynlluniedig a Phrosiectau) yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 24 Mawrth 2025.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i diweddaru.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.